# MARTHA'R MYNYDD (fl. tua 1770), twyllwraig

**Ffugenw:** Martha'r Mynydd
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** twyllwraig
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Yr oedd yn byw mewn bwthyn ar fynydd Llanllyfni, yn wraig 'ymadroddus, rithgrefyddol.' Llwyddodd i gael gan lawer yn yr ardal gredu bod ganddi gydnabyddiaeth â 'rhyw dylwyth a elwid Anweledigion,' cenedl luosog a mawr ei chyfoeth a ymrodiai ym mhobman yn y fro, mewn ffair a marchnad, heb i neb ei chanfod. Yn neilltuol, yr oedd g r bonheddig o'r genedl hon, o'r enw ' Ingram,' yn byw gyda'i ferch mewn plasty hardd (ond anweledig) ar y mynydd, yn agos i'w th hi; byddai ' Miss Ingram ' yn wir ar brydiau'n ymddangos i fodau meidrol, mewn gwisg wen hyd ei thraed, a byddai ei thad yn pregethu, yn nhrymder y nos, i gynulliadau yn nhywyllwch bwthyn Martha. Odid nad ei g r hi ei hunan oedd ' Mr. Ingram '; yn bur sicr, hyhi oedd ' Miss Ingram,' oblegid rhywdro pan oedd Martha wedi llosgi ei throed, sangodd rhyw amheuwr cyfrwys ar droed ' Miss Ingram ' yn ystod un o'r cyrddau cyfrin hyn, ac adnabu lais Martha yn ei dolur - ond bu raid iddo ffoi rhag llid y gwrandawyr cryfach eu hygoeledd. Eto, cyn pen hir ymledodd yr amheuaeth, ac aeth yr anweledigion yn fwy anweledig fyth. Edifarhaodd Martha wedyn, a diweddodd ei hoes yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Llanllyfni.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 151-2

W. R. Ambrose, *Hynafiaethau, cofiannau, a hanes presennol Nant Nantlle y traethawd buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Pen-y-groes, Llun y Pasg, 1871* (1872), 60



**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu